CYLCHGRAWN UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU

# Yr Athro

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Rhifyn Chwefror 2024

# GWYLIAU YSGOL

Cafwyd cryn drafodaeth yn y wasg ac ar y cyfryngau, mewn ymateb i ymgynhgoriad Llywodraeth Cymru ynghylch y cynigion i ailstrwythuro'r flwyddyn ysgol.

Diolch i bawb hefyd a leisiodd ei farn drwy gyfrwng holiadur UCAC. Dyma grynodeb o'r canfyddiadau.


***mwy o wybodaeth Tud 2.....***




2 CANLYNIADAU HOLIADUR
3 DOD I NABOD SWYDDOG MAES
5 TOCYN AM DDIM I EISTEDDFOD YR URDD

Cafwyd 200 o ymatebion. Gofynnwyd y cwestiwn:

Ydych chi'n credu bod angen unrhyw newid i'r calendr ysgol fel sy'n cael ei gynnig yn yr ymgynghoriad?




Roedd y farn wedi ei hollti'n gyfartal

50% o blaid newid a 50% yn erbyn

## PYTHEFNOS O WYLIAU YM MIS HYDREF

Cymysg oedd y farn ynghylch y cynnig arfaethedig o ychwanegu wythnos at hanner tymor yr hydref ac ychwanegu wythnos at dymor yr haf.

Roedd rhai'n gweld ychwanegu wythnos at wyliau hanner tymor yr hydref yn ffordd o fyrhau tymor hir, lle mae athrawon a disgyblion yn aml wedi blino'n lân ac ar eu gliniau erbyn gwyliau'r Nadolig.

Credai eraill, fodd bynnag, nad yw pythefnos o wyliau ym mis Hydref yn mynd i fod o unrhyw gymorth, gan fod y tywydd yn wael, y dyddiau'n fyr a'r nosweithiau'n hir.
Gwelai eraill fod cael pythefnos o wyliau yn yr hydref yn mynd i amharu ar ddysgwyr, yn enwedig dysgwyr oedd newydd ddechrau'r ysgol neu wedi symud o un ysgol i ysgol arall.
Mae'n cymryd amser i ymgartrefu ac ymsefydlu ac felly byddai cael pythefnos o wyliau yn y tymor hwn yn ansefydlogi disgyblion.

Roedd athrawon sy'n gyfrifol am ddosbarthiadau arholiadau yn poeni y byddai colli wythnos o addysgu yn nhymor yr hydref yn cwtogi ar yr amser fyddai ganddynt i gwblhau cyrsiau.

## GORFFEN YN HWYRACH YM MIS GORFFENNAF

Roedd rhai o'r farn fod chwe wythnos o wyliau yn anhepgor, er mwyn i athrawon gael y cyfle i ymlacio ac adennill nerth ar gyfer blwyddyn ysgol newydd.
Sylwodd rhai hefyd fod y patrwm arfaethedig ar gyfer 2025-2026 yn golygu hanner tymor o wyth wythnos a thri diwrnod yn nhymor yr haf.
Nododd nifer nad diwedd Gorffennaf yw'r amser mwyaf cynhyrchiol i ddysgwyr am nifer o resymau – tywydd, blinder diwedd blwyddyn, cyfnod ôl-arholiadau.

Y prif wrthwynebiad i orffen blwyddyn ysgol mor hwyr, oedd y byddai hynny'n golygu na fyddai disgyblion na staff yn gallu cefnogi'r Sioe Frenhinol, digwyddiad pwysig yng nghalendr y diwydiant amaethyddol.

Y gred oedd y byddai absenoldeb yn uchel iawn yn ystod yr wythnos hon, wrth i rieni dynnu eu plant o'r ysgol i fynd i'r sioe.

Ymysg y rhai nad oedd yn wrthwynebus i docio'r gwyliau i bum wythnos, roedd rhai yn awgrymu dychwelyd i'r ysgol ynghynt, sef ddiwedd Awst, gan fod y dyddiau'n byrhau a'r tywydd yn oeri erbyn hynny.

## CANLYNIADAU POSIBL WRTH NEWID Y CALENDR

Mynegodd nifer bryder y bydd cost gwyliau'n codi, gan y bydd y ffenestr wyliau'n llai. Bydd hyn hefyd yn achosi problemau o fewn rhai sefydliadau heblaw sefydliadau byd addysg, lle bydd y galw am wyliau o fewn cyfnod byr yn creu problemau o ran rota staffio.

Y pryder i rai yw y bydd cwtogi ar wyliau yn golygu heriau recriwtio a chadw o fewn y proffesiwn.
Mae'r proffesiwn fel y mae yn un anhyblyg o ran gallu mynychu digwyddiadau y tu allan i gyfnod gwyliau ac os bydd y gwyliau'n cael eu tocio, y gred yw y bydd y proffesiwn yn dod yn llai poblogaidd fyth.

I'r sawl sydd ynghlwm wrth ganlyniadau arholiadau allanol, bydd tocio'r gwyliau yn golygu mai ffenestr fach iawn o wyliau fydd ganddynt. Nid yw cyfyngu'r canlyniadau i'r un wythnos chwaith yn ddatrysiad, gan y byddai hynny'n creu pwysau aruthrol o fewn un wythnos.

## SYNIADAU ERAILL - Gwyliau Ysgol

Nid oedd prinder syniadau ymhlith aelodau UCAC sut i ddiwygio'r calendr, os oedd yn rhaid gwneud hynny. Ymhlith y syniadau a gafwyd oedd:

*'Cael tair wythnos o wyliau adeg y Nadolig a phump wythnos o wyliau haf'*

*'Bythefnos o wyliau yn yr Hydref ac ym mis Mai/Mehefin'*

*'Pob gwyliau hanner tymor yn bythefnos, pedair wythnos o wyliau yn yr haf'*

*'Wythnos o wyliau Pasg a bythefnos ym mis Mai'*

*'Pedair wythnos o wyliau haf, pythefnos o wyliau Nadolig, tair wythnos o wyliau Pasg, pythefnos ym mis Mai ac wythnos yn yr Hydref'*

*'Torri tymor yr Hydref yn dri chyfnod o bum wythnos, gyda dau saib o wythnos yn ystod y tymor'*

*'Dechrau gwyliau haf ynghynt (yn syth ar ôl arholiadau allanol) a chael pum wythnos o wyliau a phenwythnos hir adeg Gŵyl y Banc ym mis Awst'*

# DOD I NABOD

### Jen Jones - Swyddog Maes De-Orllewin a'r Canolbarth



Y tro diwethaf, cawsom gyfle i ddod i adnabod cynrychiolydd ysgol, y tro hwn cawn gyfle i ddod i adnabod un o'n swyddogion maes yn well.

Ymunodd Jen Jones ag UCAC ym mis Ionawr 2022 ac mae'n gweithio yn y De-Orllewin a'r Canolbarth, gan rannu swydd Swyddog Maes yr ardal honno gyda Gareth Morgan.
Dyma gyfle i ddod i'w hadnabod yn well.

**Enw:** Jennifer (Jen) Jones

**Ardal**: Castellnewydd Emlyn (Sir Gâr)

**Hoff ddiddordebau**: Cerdded (cerdded mynyddoedd), byd natur a theithio.

**Hoff le yng Nghymru a pham:**
Cwm Bychan a'r 'grisiau' Rhufeinig sy'n arwain at gopa Rhinog Fawr. Mae'n lle anghysbell, natur gwyllt o'ch cwmpas ym mhob man ond eto mae yna ymdeimlad o'r ddynoliaeth sydd wedi bod yn troedio'r un llwybr ers miloedd o flynyddoedd. I mi mae'n lle ysbrydoledig iawn.

**Hoff le bwyd:** Château de Noirieux, Briollay, Ffrainc – y pryd bwyd gorau i mi ei flasu erioed

**Hoff bryd**: Pasta bwyd môr

**Â phwy, byw neu farw, fuasech chi'n hoffi cwrdd i gael sgwrs dros baned/ddished?**
Margaret Beaufort- mae hanes hollol anhygoel iddi ddod yn weddw yn dair ar ddeg oed (ei gŵr wedi marw yng Nghastell Caerfyrddin o'r Pla) ac iddi hi eni mab rai misoedd yn ddiweddarach yng Nghastell Penfro (hwn a ddaeth i fod yn Frenin Harri'r VII) gan drawsnewid gwleidyddiaeth Cymru a Phrydain hyd y dydd heddiw. Bu iddi hefyd osod cynsail mewn darpariaeth gofal iechyd ar gyfer merched beichiog.

**Y perfformiad gorau i chi ei weld?**
'Pum Diwrnod o Ryddid' – fe'i gwelais pan oeddwn yn 13 oed ac rwy'n dal i gofio'r argraff gafodd y perfformiad arna i.

**Pe baech yn gallu newid un peth am y system addysg yng Nghymru, beth fyddai hwnnw?**
Cael gwared ar unrhyw fiwrocratiaeth diangen sydd ynghlwm â dysgu a gadael i'n hathrawon wneud yr hyn y maent yn ei wneud yn arbennig o gywrain-addysgu!

**Pam ydych chi'n mwynhau gweithio i UCAC?**
Dwi wastad wedi mwynhau helpu pobl a thrwy weithio i UCAC dwi'n teimlo mod i'n medru gwneud rhyw ychydig bach o wahaniaeth. Hefyd, nid oes yr un ymholiad na'r un dydd yn union yr un fath.

# Dechrau Gyrfa - Miles Hermann



Wedi graddio mewn Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd a dilyn cwrs Tystysgrif Addysg yn Aberystwyth, dechreuodd Miles Hermann ar ei yrfa fel athro ym mis Medi 2022.

Diolch i Miles am gytuno i ateb rhai cwestiynau am ei brofiadau ef wrth iddo ddechrau ar ei yrfa.

**1. Pam wnaethoch chi benderfynu dilyn gyrfa fel athro?**

*Roeddwn i'n awyddus i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg ac i ysbrydoli eraill i ddefnyddio'r Gymraeg. Rwy'n falch o'r cyfle i greu cariad at yr iaith mewn disgyblion sy'n byw mewn ardal lle nad oes llawer o Gymraeg o'u cwmpas.*

*Roeddwn i hefyd am gryfhau fy sgiliau pwnc a dysgu sgiliau newydd i ddysgwyr. Rwyf am i bobl ifanc fod yn chwilfrydig a mwynhau wrth ddysgu.*

**2. Beth yw eich pwnc?**

*Daearyddiaeth. Rydw i'n angerddol am Ddaearyddiaeth a'r Dyniaethau ac am i bobl ifanc rannu'r un mwynhad â fi o'r pynciau hyn.*

**3. Ym mha sector ydych chi'n dysgu (h.y cynradd/uwchradd)?**

*Rwy'n dysgu mewn ysgol uwchradd i ddysgwyr 11-18 oed. Erbyn hyn, rwy'n athro pwnc a hefyd yn Arweinydd Lles a Chynnydd i Flwyddyn 8.*



**4. Beth yw eich diddordebau y tu allan i fyd addysg?**

*Rwy'n hoff iawn o nofio, er nad wyf yn cael llawer o amser i nofio y dyddiau hyn.*
*Rwyf hefyd wrth fy modd yn darllen, yn enwedig ynglŷn â materion gwleidyddol. Rwy'n hoffi cymdeithasu a chwrdd â ffrindiau a hefyd yn hoffi cerdded a mwynhau byd natur.*

**5. Beth oedd yr her fwyaf yn eich blwyddyn gyntaf o ddysgu?**

*Bu'n rhaid i mi ddysgu pynciau ar wahân i'm prif bwnc, ond dysgais nifer o wersi o'r her honno. Dysgais sgiliau rheoli amser a bod yn drefnus, yn ogystal â pha mor bwysig yw cyfathrebu ar draws yr ysgol.*

*Roedd dod i adnabod y dysgwyr hefyd yn her a dod i sylweddoli beth oedd eu problemau a cheisio eu helpu. Mae llawer o ddysgwyr yn wynebu problemau lles.*

*Mae dod i adnabod pobl ifanc o gefndiroedd amrywiol a gwahanol i'm hardal enedigol i wedi bod yn her ond hefyd yn fraint. Mae gwybod beth yw'r heriau wedi rhoi'r cyfle i mi gefnogi dysgwyr ac rwy'n falch o'r cyfle i fod yn Arweinydd Lles a Chynnydd i Flwyddyn 8.*



6. Beth oedd uchafbwynt eich blwyddyn gyntaf o ddysgu ?

*Alla i byth â meddwl yn nhermau un uchafbwynt, ond yn hytrach yn nhermau llwyth o uchafbwyntiau. Mae cymaint ohonyn nhw….! Ymysg yr uchafbwyntiau, roedd gweld llwyddiant fy nosbarthiadau arholiadau pan ddaeth y canlyniadau. Roedd hynny wir yn codi calon.*

*Roedd Eisteddfod yr Urdd yn uchafbwynt arall. Roeddwn i wrth fy modd yn gweld disgyblion yn cael cyfle i wneud pethau'n allgyrsiol a pherfformio ar lwyfan Cenedlaethol. Bûm yn helpu i hyfforddi'r Gân Actol.*
*Yn ystod y flwyddyn, dechreuais glwb dadlau a siarad cyhoeddus a bu rhai o'm disgyblion yn cystadlu yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus yr Urdd (a hefyd yng nghystadleuaeth y Rotari). Cefais i gyfleoedd siarad cyhoeddus pan oeddwn i yn yr ysgol ac roeddwn am roi'r un cyfleoedd i'm disgyblion.*

*Roeddwn hefyd yn falch o fod wedi cynllunio a chydlynu diwrnod dyniaethau Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Blwyddyn 7 o dan y teitl 'Casnewydd 2050'. Cafodd y diwrnod ei ffilmio gan S4C ac roedd yn cynnwys cyflwyniadau gan rai o gyflwynwyr S4C ac ymchwilwyr o Brifysgol Abertawe.*
*Roedd yn gyfle gwych i Flwyddyn 7 gyflwyno syniadau ynghylch datrys problemau newid hinsawdd.*


Eisteddfod yr Urdd 2024

# ! Aelodau UCAC Sir Powys !


## Hoffech chi docyn am ddim i'r maes eleni?

**Mae UCAC yn edrych am aelodau fyddai â diddordeb i wirfoddoli ar ein stondin yn Eisteddfod yr Urdd eleni.**

**3 awr** o bresenoldeb ar ein stondin =
**1 x Tocyn am ddim**
**a chyfle hefyd i ennill 'hwdi' UCAC**

CYSYLLTWCH
*am fwy o wybodaeth*

**ucac@ucac.cymru**
**01970 639950**

# BIL ADDYSG AWYR AGORED BRESWYL

Ar hyn o bryd mae'r Senedd yn trafod y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl. Pe bai'r Bil hwn yn dod yn ddeddf, byddai pob disgybl mewn ysgol a gynhelir yn gorfod cael y cyfle i gael cyfnod o addysg awyr agored breswyl rywbryd yn ysgol ei yrfa addysgol.
Cafodd UCAC y cyfle i gyflwyno tystiolaeth lafar mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Er bod UCAC yn cytuno â'r feddylfryd sydd wrth wraidd y Bil ac yn cydnabod y buddion a ddaw yn sgil gweithgareddau o'r fath, yn yr hinsawdd bresennol o doriadau a chynni, mae gan yr Undeb amheuon cryf ynghylch ymarferoldeb cynnig o'r fath.

Mae gennym amheuon ynghylch capasiti ein canolfannau awyr agored, heb sôn am gapasiti ysgolion o ran staffio'r gweithgaredd a threfnu athrawon cyflenwi.
Wrth gyhoeddi'r gyllideb ddrafft ar 19 Rhagfyr 2023, nodwyd nad 'yw ein setliad ariannu yn ddigonol i ymateb i'r pwysau eithriadol sydd ar Gymru… Nid yw ychwaith yn ddigonol i gydnabod y galw cynyddol am wasanaethau…' Sut felly y mae modd ystyried datblygiad costus fel hyn?

Rydym yn pryderu y byddai ariannu cynllun o'r fath yn golygu y bydd arian yn cael ei docio mewn mannau eraill. Mae cyllidebau ysgol yn dynn ar hyn o bryd. Mae'n anodd ariannu'r hyn sydd eisoes yn cael ei ddarparu heb sôn am ystyried ariannu mentrau newydd.

Nid yw hi chwaith yn eglur beth yn union a olygir wrth 'weithgareddau awyr agored'. Teimlwn y dylid bod yn fwy penodol, er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch ledled Cymru.


O safbwynt y Gymraeg, er bod gorfodaeth i ddarparu yn y Gymraeg, nid ydym yn hapus â'r amod a ddaw yn sgil hynny ' cyn belled â'i bod ar gael, pan fo ysgol yn gwneud cais am hynny'. Teimlwn y dylid sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael i bawb ac y dylid annog ysgolion cyfrwng Saesneg i gyfuno addysg awyr agored gyda chyfleoedd i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Teimlwn hefyd y dylai unrhyw ddarpariaeth neu unrhyw gynllun sicrhau bod cyfle cyfartal a thegwch i ddisgyblion ADY. Mae peth amheuaeth ynghylch pwy fydd yn monitro ac yn sicrhau ansawdd y gweithgareddau a'r canolfannau awyr agored.

Er ein bod yn gweld llawer o bethau canmoladwy ac anrhydeddus yn y Bil hwn, nid ydym yn teimlo fod digon o sylw wedi ei roi i'r manylion nac i'r costau. Pe bai cyflwr cyllidebau yn iach, yna byddem yn croesawu'r Bil, ond mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn arwain at gryn amheuon o safbwynt ymarferoldeb y cynlluniau.

Os ydych am weld y sesiwn dystiolaeth yn ei chyfanrwydd, ewch i:
**Senedd.tv - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - 11/01/24**

# UNRHYW NEWIDIADAU?






# COMISIWN ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL

Ym mis Medi 2023, sefydlwyd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru.

Ym mis Awst eleni, bydd y Comisiwn yn dod yn gyfrifol am strategaeth, cyllido o goruchwylio addysg drydyddol, gan gynnwys chweched dosbarth ysgolion.

Yn sgil y datblygiadau diweddar, mae rhai Awdurdodau Lleol yn ystyried o ddifrif beth yw natur a gofynion eu darpariaeth ôl-16.
Enghraifft o hyn yw'r trafodaethau sydd ar y gweill yng Ngheredigion a'r penderfyniad a wnaed yn Arfon o ran Chweched Dosbarth mewn ysgolion. Yng Ngheredigion, cyflwynwyd pedwar opsiwn i Gynghorwyr Sir.

Penderfynwyd yng nghyfarfod Cabinet Ceredigion y dylid cynnael astudiaeth ddichonolrwydd er mwyn rhoi ystyriaeth i ddau o'r opsiynau hyn, sef yr opsiwn o ddatblygu'r sefyllfa gyfredol a'r opsiwn o sefydlu un ganolfan.



Yn yr opsiwn o ddatblygu'r sefyllfa gyfredol, byddai darpariaeth ôl-16 yn parhau ar y chwe safle presennol ond byddai Bwrdd Strategol yn cyd-gynllunio'r cwricwlwm ac yna'n comisiynu'r dddarpariaeth gan yr ysgolion, e-sgol a phartneriaid eraill.

Byddai'r opsiwn o sefydlu un ganolfan yn golygu cau'r ddarpariaeth ôl-16 bresennol a sefydlu Canolfan Rhagoriaeth ar un neu fwy o safleoedd daearyddol addas. Ar y llaw arall, mae Arfon wedi penderfynu peidio â mynd rhagddo â chynllun posibl i uno adrannau chweched dsobarth chwe ysgol uwchradd yn Arfon a chreu un ganolfan addysg ôl-16.

Un peth sy'n bwysig yng nghanol unrhyw drafodaethau yw'r angen i ddiogelu a datblygu ymhellach unrhyw gyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg adroddiad ar 'Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr'. Diddorol oedd darllen canfyddiadau'r ymchwiliad hwn.
Mae'n cydnabod fod 'gan y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol rôl cwbl allweddol wrth sicrhau dilyniant ieithyddol i ddysgwyr.' Mae'n galonogol deall bod 'y canlyniadau yn dangos yn glir iawn bwysigrwydd y Gymraeg i ddysgwyr yng Nghymru.' Mae'n drist nodi, fodd bynnag, nad yw'r cyfleoedd yr un fath i bawb a bod yna ddiffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg, 'yn enwedig mewn meysydd mwy galwedigaethol'.

Yn ddi-os, os ydym am sicrhau bod gennym weithlu sy'n defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd yn eu bywyd gwaith, mae angen sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i ddilyn ei briod faes drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n rhaid mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau ac unrhyw heriau o ran cynnig darpariaeth Gymraeg i'n pobl ifanc.
Mae'r adroddiad yn cydnabod mai mewn ysgolion y mae'r ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg ar ei chryfaf ar hyn o bryd.
Rhaid ymroi i sicrhau nid yn unig bod y ddarpariaeth yn cynyddu, ond hefyd bod y galw'n cynyddu wrth drosglwyddo pa mor bwysig yw sgiliau Cymraeg ac yna gefnogi dysgwyr i fanteisio ar bob cyfle i fanteisio ar y ddarpariaeth Gymraeg.

Er mwyn darllen yr adroddiad yn llawn, dilynwch y ddolen: \

https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/media/4znf3mt0/addysg-%C3%B4l-orfodol-ar-gymraeg-llais-y-dysgwyr.pdf




Yn sgil yr adborth ynghylch y pwysau sydd ynghlwm wrth rôl newydd y CADY, sefydlwyd grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Mai i ystyried cyflog ac amser digyswllt y sawl sy'n cyflawni'r rôl hon mewn ysgolion.

Ffrwyth y gwaith hwnnw yw'r Adroddiad a gyhoeddwyd ar 20 Chwefror.

Datganiad Ysgrifenedig: Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (20 Chwefror 2024) | LLYW.CYMRU

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei rannu a'i drafod ymhellach yn awr gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru. Mae'r adroddiad yn nodi pedwar argymhelliad:

1. Dylai'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol gael ei benodi'n aelod o Uwch Dîm Arwain y lleoliad er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau gofynnol yn effeithiol.

2. Dylai'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol gael ei dalu yn unol â'i benodiad i Uwch Dîm Rheoli'r lleoliad er mwyn adlewyrchu cyfrifoldebau rheoli'r rôl.

3. Dylai'r CADY gael cynnig pecyn dysgu proffesiynol sy'n briodol i'w rôl, profiad ac anghenion a dylid neilltuo amser digyswllt i ymgymryd â hyn.

4. Dylid ystyried nodi lefel sy'n adlewyrchu'r rôl a ddynodwyd i'r CADY. Dylai hyn fod ar lefel Uwch Reoli yn y lleoliad a dylai'r gydnabyddiaeth ariannol fod yn gymesur â'r rôl.

Rydym yn ddiolchgar fel Undeb i Cei Pryderi am ein cynrychioli ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen CADY. Mae'r argymhellion yn adlewyrchu nifer o gynigion a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn Nghynhadledd Flynyddol UCAC.




## Bwrdd Golygyddol

**Llywydd Cenedlaethol:** Geraint Phillips
**Is-Lywydd:** Ceri Evans
**Ysgrifennydd Cyffredinol:** Ioan Rhys Jones
**Is-lywydd Cyffredinol:** Mererid Lewis Davies
**Cydlynydd Yr Athro:** Iona Davies
**Dylunydd:** Nia Evans

**Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.**

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at:
**Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU**
**Ffôn:** 01970 639950 | ucac@ucac.cymru | www.ucac.cymru
Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.

**UCAC**
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

MEWN UNDEB MAE NERTH

Mae UCAC yn undeb ar gyfer athrawon, penaethiaid, darlithwyr a thiwtoriaid dros Gymru gyfan – yr unig undeb addysg sy'n rhoi addysgwyr Cymru'n gyntaf.

www.ucac.cymru
ucac@ucac.cymru
01970 639950
AthrawronCymru
@AthrawronCymru
undebcenedlaethol athrawoncymru

**UCAC** | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru